



Prifysgol Abertawe
Swansea University

Newyddion

gan Tudur Dylan Jones



Newyddion

Dewi ap Gwyn ar newyddion saith
yng nghanol trychineb, yn gwneud fy ngwaith.

newyddion saith – news at 7
trychineb – disaster/tragedy
yn gwneud fy ngwaith – doing my work/job

Wedi cyrraedd yma ryw ddeuddeg awr
ers i'r wlad ddiodde'r daeargryn mawr.

cyrraedd – arrive
ryw ddeuddeg awr – around 12 hours
diodde – suffer
daeargryn - earthquake

Mae arogl marw ar hyd y lle,
a ddoe yn llwch hyd strydoedd y dre.

arogl marw – smell of death
ar hyd y lle – all over the place
llwch – dust

Gallwch glywed plant yn gweiddi'n groch
am gymorth cyntaf, am weld y groes goch.

gweiddi'n groch – shouting at the top of (their) voices
cymorth cyntaf – first aid
y groes goch – the red cross

Mae'r byd ar ben yng nghanol y glaw,
ond does neb wedi cyrraedd i roi help llaw.

byd - world
ar ben – at an end
help llaw – a helping hand

I'r un fam ifanc, wedi colli ei gŵr,
nac i'r plentyn bach sy'n crefu am ddŵr.

crefu – crave / beg

Dacw fabi mewn cadach blêr ar y llawr,
mae'n siŵr o farw o fewn yr awr.

dacw – see there
cadach blêr – dirty rag/dirty swaddling-clothes
mae'n siŵr o – he's sure to
o fewn yr awr – within the hour

Dewi ap Gwyn ar newyddion saith
nôl at y stiwdio...wedi gorffen fy ngwaith.

Tudur Dylan Jones

Cwestiwn posib ar bapur arholiad:

Adran B

Barddoniaeth

Darllenwch yn ofalus y pennill canlynol o'r gerdd 'Newyddion' gan Tudur Dylan Jones ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn (*Carefully read the following verse from the poem 'Twyll' by Myrddin ap Dafydd and answer the questions which follow*):

**Mae arogl marw ar hyd y lle,
a ddoe yn llwch hyd strydoedd y dre.**

**Gallwch glywed plant yn gweiddi'n groch
am gymorth cyntaf, am weld y groes goch.**

**I'r un fam ifanc, wedi colli ei gŵr,
nac i'r plentyn bach sy'n crefu am ddŵr.**

(i) Beth ydy prif neges y penillion hyn a sut maen nhw'n berthnasol i weddill y gerdd? (*What is the main message of these verses and how are they relevant to the rest of the poem?*) [25]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen (*Write about one side of a page*).

(ii) Yn y gerdd mae'r bardd yn defnyddio'r technegau canlynol (*In the poem, the poet uses the following techniques*):

- * odli
- * apelio at y synhwyrau
- * cyflythrennu

Trafodwch pa mor effeithiol ydy'r technegau uchod yn y gerdd hon.

(*Discuss how effective the above techniques are in this poem.*) [25]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen (*Write about one side of a page*).

(iii) Yn ôl y bardd, Tudur Dylan Jones, dydyn ni ddim yn poeni digon am bobl sy'n diodde. Beth ydy'ch barn chi? (*According to the poet, Tudur Dylan Jones, we don't care enough about people who are suffering. What is your opinion?*)

YMARFER 1

1. Yn y rhestr isod, pa enw sy'n wahanol i bob un arall? Pam?

(In the list below, which name is different to all other names? Why?)

1. Dan Harries
2. Tom Davies
3. Dafydd ap Gwyn
4. Mike Jones

2. Beth yw 'trychineb' yn Saesneg? Mae 2 ateb yn bosib:


1. Terrible
2. Disaster
3. Celebration
4. Tragedy

3. Beth yw 'news' yn Gymraeg?

1. Newyddion
2. Cylchgrawn
3. Cyflwynydd
4. Rhaglen

4. Beth yw 'news journalist' yn Gymraeg?

1. Heddwas
2. Newyddiadurwr
3. Meddyg
4. Darlithydd



YMARFER 2

Dydy'r lluniau hyn ddim yn mynd gyda'r penillion hyn. Pa luniau sy'n mynd gyda'r penillion?

Dewi ap Gwyn ar newyddion saith yng nghanol trychineb, yn gwneud fy ngwaith.



Wedi cyrraedd yma ryw ddeuddeg awr ers i'r wlad ddiode'r daeargryn mawr.



Mae arogl marw ar hyd y lle, a ddoe yn llwch hyd strydoedd y dre.




Gallwch glywed plant yn gweiddi'n groch am gymorth cyntaf, am weld y groes goch.



YMARFER 3

Mae'r bardd yn apelio at ein synhwyrau (*appeals to our senses*). At ba synhwyrau mae e'n apelio ym mhob pennill?

Dewi ap Gwyn ar newyddion saith
yng nghanol trychineb, yn gwneud fy ngwaith.



Arogli

Wedi cyrraedd yma ryw ddeuddeg awr
ers i'r wlad ddiode'r daeargryn mawr.



Clywed

Mae arogl marw ar hyd y lle,
a ddoe yn llwch hyd strydoedd y dre.



Gweld

Gallwch glywed plant yn gweiddi'n groch
am gymorth cyntaf, am weld y groes goch.



Gweld

YMARFER 4

Chwiliwch am 6 gair negyddol (*negative words*) yn y penillion cyntaf (*in the first verses*).

1.
2.
3.
4.
5.
6.

YMARFER 4

Chwiliwch am y 7 gair/ymadrodd (*words/phrases*) yn y bocs:

Mae'r byd ar ben yng nghanol y glaw,
ond does neb wedi cyrraedd i roi help llaw.

I'r un fam ifanc, wedi colli ei gŵr,
nac i'r plentyn bach sy'n crefu am ddŵr.

Dacw fabi mewn cadach blêr ar y llawr,
mae'n siŵr o farw o fewn yr awr.

1. It's the end of the world
2. the rain
3. no-one
4. (who) has lost her husband
5. begs for water
6. dirty rags
7. sure to die



NODIADAU ADOLYGU (Revision notes)

Defnyddiwch y geiriau hyn i lenwi'r bylchau (Use these words to fill the gaps)

diodde	clywed	arogl	helpu	glaw	neb	mam
Gymru	marwolaeth	babi	gorffen	llwch	ddŵr	

Yn y gerdd hon, rydyn ni'n gweld cyfres o luniau (we see a series of pictures), fel saethiadau camera (like camera shots) mewn adroddiad newyddion ar y teledu (in a news report on television).

Yn y pennill cyntaf (In the first verse), rydyn ni'n dysgu bod Dewi ap Gwyn yn newyddiadurwr (journalist). Mae e mewn gwlad arall (in another country). Dydy e ddim yno i _____. Mae e yno i wneud ei waith.

Yn yr ail bennill, rydyn ni'n dysgu bod rhywbeth ofnadwy wedi digwydd (something terrible has happened) yn y wlad. Maen nhw'n _____ (suffer) achos daeargryn (earthquake).

Yn y trydydd pennill, mae Dewi ap Gwyn yn disgrifio'r _____ yn y lle (the smell in the place). Mae e'n gallu arogl marwolaeth (He can smell death). Mae popeth wedi troi i _____ (everything has turned into dust/ashes). Mae'r bardd yn chwarae ar y gair (plays on the word) 'llwch' achos mae'n gallu golygu (it can mean) 'dust' ond hefyd mae'n gallu golygu 'ashes'. Felly mae'r gair 'llwch' yn cyfleu (conveys) llanast (mess) ac yn cyfleu _____ (death).

Yn y pedwerydd pennill, mae Dewi ap Gwyn yn _____ y plant yn gweiddi. Maen nhw'n gweiddi am help.

Yn y pumed pennill, does _____ yn gwrando ar y plant (no-one listens to the children). Mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth (Things go from bad to worse) achos nawr rydyn ni'n dysgu ei bod hi'n bwrw _____ (that it's raining).

Yn y chweched pennill, rydyn ni'n gweld _____ unig (a lonely mother) a phlentyn heb _____ (and a child without water).

Yn y seithfed pennill, mae Dewi ap Gwyn yn gweld _____'n marw ar y llawr.

Yn y pennill olaf, mae Dewi ap Gwyn wedi gorffen ei adroddiad (has finished his report). Mae e wedi _____ ei waith. Dydy e ddim yn poeni (care) am y wlad neu'r bobl. Dydy e ddim yn gwneud unrhyw beth i helpu. Cyn bo hir (soon), bydd e'n mynd adref i _____ ac i'w fywyd cyfforddus (and to his comfortable life).

Mae'r bardd yn gwneud i ni feddwl (The poet makes us think). Ydyn ni fel Dewi ap Gwyn? (Are we like Dewi ap Gwyn?) Ydyn ni'n helpu pobl eraill neu ydyn ni'n hapus i wyllo o bell? (Do we help other people or are we happy to watch from afar?).

Techneg	Enghraifft	Effaith